

Hysbysiad Preifatrwydd/Prosesu Teg

Beth yw nod Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn?

Mae Archwiliad Cenedlaethol Canser y Coluddyn ("yr Archwiliad") yn bartneriaeth rhwng yr Uned Effeithiolrwydd Clinigol yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon, NHS Digital, a Chymdeithas Colobroctoleg Prydain ac Iwerddon (ACPGBI).

Mae'r Archwiliad yn mesur ansawdd y gofal a roddwyd i gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn yng ngwasanaethau'r GIG yng Nghymru a Lloegr. Mae wedi'i ddylunio i werthuso'r llwybrau gofal a ddilynwyd gan gleifion ar ôl iddynt gael diagnosis o ganser y coluddyn, ac i asesu'r canlyniadau.

Drwy archwilio'r gofal a roddir gan wasanaethau canser, gallwn dynnu sylw at y meysydd lle mae ysbytai'n perfformio'n dda, a'r meysydd lle gellir gwella ansawdd y gofal. Drwy gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer holl wasanaethau'r GIG, mae'n caniatáu i wasanaethau canser gymharu eu hunain â gwasanaethau eraill yng Nghymru a Lloegr, a rhannu enghreifftiau o ymarfer da.

O ble mae data cleifion yn cael eu casglu?

Mae holl gleifion y GIG sydd wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn ym mhob cyfnod archwilio yng Nghymru a Lloegr yn gymwys i gael eu cynnwys yn yr Archwiliad. Mae data cleifion yn cael eu cyflenwi i'r Archwiliad gan ysbytai'r GIG ac yn cael eu storio mewn system TG ddiogel wedi'i letya gan NHS Digital.

Mae'r data sy'n cael eu casglu o ysbytai'r GIG yn darparu gwybodaeth am wneud diagnosis a rheoli'r holl gleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn yn ddiweddar, gan gynnwys y dull o wneud diagnosis, lleoliad y canser, pennu cyfnod, bwriad o ran triniaeth, ffitrwydd cleifion, gweithdrefnau llawfeddygol, canlyniadau patholeg a thriniaethau ar ôl llawdriniaeth fel radiotherapi neu gemotherapi.

I leihau'r angen i staff ysbytai gasglu data ddwywaith, mae'r Archwiliad yn cysylltu'r data hyn â gwybodaeth arall sy'n cael ei dal mewn cronfeydd data ysbytai cenedlaethol (Ystadegau Cyfnodau Ysbytai a Chronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru), y gofrestr marwolaethau genedlaethol (y Swyddfa Ystadegau Gwladol), y setiau data cemotherapi a radiotherapi sy'n cael eu dal gan Public Health England, ac archwiliad cenedlaethol arall o'r enw yr Archwiliad Laparotomi Brys Cenedlaethol (NELA). Mae hyn yn darparu rhagor o wybodaeth am gleifion canser y coluddyn sydd mewn sefyllfa frys. Bydd yr Archwiliad hefyd yn cysylltu ei ddata â data'r Canolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys cyn bo hir.

Mae holl ddata'r Archwiliad yn cael eu storio mewn amgylchedd TG diogel yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr. Dim ond unigolion wedi'u cymeradwyo sy'n gallu cael mynediad at y data hyn ac mae diogelwch yn cael ei gynnal drwy gyfrineiriau ac amgryptio. Mae'r Coleg yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â defnyddio data cleifion dan ffugenw.

Oes modd adnabod unigolion yn nata'r Ystadegau Cyfnodau Ysbytai a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol?

Mae'r holl waith cysylltu'n cael ei wneud gan NHS Digital a dim ond setiau data heb fanylion adnabod i'w dadansoddi mae tîm prosiect yr Archwiliad yn eu cael. Nid yw'r data'n cynnwys gwybodaeth bersonol, sensitif fel enw, cyfeiriad neu god post. Mae unigolion yn cael eu labelu â dynodwr dienw sy'n ei gwneud hi'n amhosib adnabod pobl heb ychwanegu gwybodaeth arall.

Rheolydd Data

Mae'r Archwiliad wedi'i gomisiynu gan y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd fel rhan o Raglen yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol ar ran NHS England a Llywodraeth Cymru. NHS England a'r Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd yw'r rheolyddion data ar y cyd ar gyfer y data cleifion a gyflwynir i'r archwiliad yn uniongyrchol gan ysbytai'r GIG.

Mae rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt y Bartneriaeth ar gael [yma](#):

Mae tîm yr Archwiliad yn cyfuno data unigolion â gwybodaeth arall sy'n cael ei dal mewn cronfeydd data ysbytai cenedlaethol eraill. Mae manylion rheolyddion data'r setiau data cenedlaethol eraill hyn i'w gweld isod. Cliciwch yr hyperddolenni i gael rhagor o wybodaeth amdanynt:

- NHS Digital – Data ysbytai Lloegr o set ddata Ystadegau Cyfnodau Ysbytai ([HES](#))
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru – Data Ysbytai Cymru o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru ([PEDW](#))
Y Swyddfa Ystadegau Gwladol - cofrestr marwolaethau ([ONS](#))
- Public Health England - data cemotherapi ([SACT](#)) a radiotherapi ([RTDS](#))
Rhwydwaith Canser Cymru - gwybodaeth canser ymysg cleifion yng Nghymru o System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru ([Canisc](#))
- HQIP - Set ddata'r Archwiliad Laparotomi Brys Cenedlaethol ([NELA](#))
- Canolfan Genedlaethol Ymchwil ac Archwilio Gofal Dwys ([ICNARC](#))

Sail gyfreithiol dros gasglu data personol

Mae'r Archwiliad wedi cael cymeradwyaeth i gasglu gwybodaeth am ofal iechyd o dan adran 251 (cyfeirnod: CAG ECC 1-3(d)/2012) ar gyfer yr holl gleifion sy'n cael diagnosis o ganser y coluddyn yng Nghymru a Lloegr. Mae rhagor o wybodaeth am adran 251 ar gael [yma](#).

Sail gyfreithiol dros brosesu data personol cleifion

Mae'r Archwiliad wedi cael cymeradwyaeth i brosesu data o dan erthyglau 6 (1) (e) a 9 (2) (i) GDPR gan fod angen y data i gyflawni tasg er budd y cyhoedd i sicrhau safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch gofal iechyd.

Sut rydym yn diogelu eich data

Mae timau clinigol lleol yn mewnbynnu data cleifion i adnodd diogel ar y we a ddarperir gan NHS Digital. Dim ond meddygon, nyrsys a staff archwilio clinigol sydd wedi cofrestru â'r Archwiliad sy'n gallu defnyddio'r adnodd casglu data. Mae diogelwch a chyfrinachedd yn cael eu cynnal drwy gyfrineiriau a phroses gofrestru sy'n benodol i unigolion. Dim ond staff NHS Digital sy'n gallu defnyddio'r adnodd casglu data.

Cyfrinachedd cleifion a lefel y data sy'n cael eu casglu

Mae'r wybodaeth ar lefel cleifion a geir ac a reolir gan dîm yr Archwiliad yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Wrth ddadansoddi'r data i gynhyrchu'r wybodaeth am ofal cleifion a'r canlyniadau, mae tîm yr Archwiliad yn defnyddio data heb fanylion adnabod er mwyn ei gwneud hi'n amhosib adnabod cleifion unigol. Mae'r data'n cael eu hystyried yn ddata personol o dan GDPR.

Mae'r Archwiliad hefyd yn cymryd gofal wrth gyhoeddi gwybodaeth sy'n cynnwys graffiau neu dablau i wneud yn siŵr nad oes modd adnabod unigolion. I sicrhau hyn, mae'r Archwiliad yn dilyn y canllawiau ar gyhoeddi ystadegau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Review of the Dissemination of Health Statistics: Confidentiality Guidance (PDF).

Rheoli data ar lefel cleifion gan dîm yr Archwiliad

Mae tîm yr Archwiliad wedi'i leoli yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr ac NHS Digital. Mae'r Coleg ac NHS Digital yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â chasglu a defnyddio data cleifion. Mae gan y ddau sefydliad fesurau diogelwch llym ar waith i ddiogelu'r wybodaeth am gleifion sy'n cael ei dal yn y system Casglu Data ac wrth ddadansoddi'r set ddata heb fanylion adnabod. Mae gan y system TG Casglu Data amrywiol lefelau diogelwch wedi'u gosod, fel diogelwch cyfrinair ID sy'n atal defnyddwyr heb awdurdod rhag cael mynediad, ac amgryptio data.

Sut ydym yn dadansoddi'r data?

Mae ein gwaith yn cynhyrchu amrywiaeth o ystadegau sy'n cael eu hadrodd ar wahanol lefelau o agregu. Ymysg hyn mae cynhyrchu gwybodaeth gan ysbytai'r GIG i ategu gweithgareddau sicrhau ansawdd yn y sefydliadau hyn, ac ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol i gefnogi llunwyr polisïau a chomisïynwyr. Caiff y wybodaeth hon ei chyhoeddi mewn adroddiadau, mewn cyfnodolion wedi'u hadolygu gan gymheiriaid, ac mewn cyflwyniadau i grwpiau cleifion, i weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac i ymchwilwyr gofal

iechyd. Wrth gyflwyno gwybodaeth yn y ffyrdd hyn, nid ydym yn cyhoeddi gwybodaeth ar lefel unigolion.

Mae'r rhaglen waith yn cynnwys nodi grwpiau cleifion yn y data a disgrifio tueddiadau ac amrywiadau o ran nifer y cleifion a gafodd eu trin, y gwahaniaethau rhwng eu nodweddion (fel oedran, ethnigrwydd, a ydynt yn dioddef o gyflyrau eraill), y triniaethau a roddwyd a'r canlyniadau gofal.

Gyda phwy ydym yn rhannu data?

Mae'r Archwiliad dim ond yn rhannu data ar lefel cleifion, gan ddilyn trefn lywodraethu gaeth, i sicrhau cydymffurfiaid â GDPR.

Gall ymchwilyr wneud cais i Reolydd Data'r Archwiliad (y Bartneriaeth Gwella Ansawdd Gofal Iechyd (HQIP)) os ydynt yn dymuno defnyddio'r data cleifion ar gyfer astudiaeth ymchwil. Mae'r ceisiadau hyn yn destun proses gymeradwyo gaeth fel yr amlinellir [yma](#).

Beth os ydw i'n dymuno i'r Archwiliad beidio â defnyddio fy ngwybodaeth?

Ni all yr Archwiliad adnabod cleifion yn y data ac felly nid oes modd tynnu gwybodaeth person o'r data a gyflenwir gan NHS Digital.

Gall unrhyw glaf ddewis bod ei wybodaeth yn cael ei dynnu o gronfa ddata'r Archwiliad drwy gysylltu ag NHS Digital. I gael rhagor o wybodaeth am optio allan, cliciwch [yma](#).

Mewn rhai amgylchiadau, mae gan unigolyn yr hawl i ofyn bod ei ddata'n cael ei dileu. Nid yw hyn yn berthnasol i gofnod gofal iechyd unigolyn.

Manylion cyswllt y tîm darparu mae'r Archwiliad yn eu dal

Mae NHS Digital yn dal manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost ac enw'r ysbyty) ar gyfer yr aelodau allweddol o bob tîm darparu estynedig (Arweinydd Clinigol, cydlynnydd y tîm amlddisgyblaethol, yr adran archwilio a chysylltiadau dynodedig gwasanaethau canser) ar ran yr Archwiliad. Mae'r wybodaeth hon yn galluogi NHS Digital/yr Archwiliad i ddosbarthu diweddariadau pwysig am yr archwiliad, i weinyddu diweddariadau sefydliadol i'r archwiliad ac i gysylltu â darparwyr yn ystod y broses allanolynnau. Ni chaiff y wybodaeth hon ei rhannu y tu allan i NHS Digital.

Ein sail gyfreithiol dros gasglu a phrosesu manylion cyswllt yw buddiant dilys. Cânt eu trin yn unol â GDPR ac ni chânt eu defnyddio at unrhyw ddiben arall heb gydsyniad. Nid yw unrhyw ran o fanylion cyswllt y tîm darparu yn ddata personol categori arbennig.

Os ydych yn credu bod unrhyw fanylion cyswllt a gedwir gennym amdanoch yn anghywir neu'n anghyflawn, cysylltwch â ni cyn gynted â phosib. Byddwn yn mynd ati'n brydlon i gywiro unrhyw wybodaeth anghywir.

Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd a bydd y fersiwn ddiweddaraf ar y dudalen we hon bob amser.

Cafodd y polisi preifatrwydd hwn ei ddiweddarau ddiwethaf ar 16/03/20.

Sut mae cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ein polisi preifatrwydd neu am y wybodaeth rydym yn ei dal amdanoch, cysylltwch â ni dros e-bost ar: bowelcancer@nhs.net

Mae gwybodaeth am y gofynion ar yr Archwiliad i gadw data personol yn ddiogel a beth i'w wneud i roi gwybod am achos o fynediad diawdurdod at ddata ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth [yma](#).